



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Asesiadau personol – Canllawiau TG i ysgolion



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru

OGL

ISBN digidol 978 1 83933 275 3
© Hawlfraint y Goron Hydref 2019
WG38976

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Sut i wneud y mwyaf o gysylltiad eich ysgol â'r rhyngrwyd	2
Cadarnhau cyflymder eich cysylltiad â'r rhyngrwyd a'r lled band	3
Dyfeisiau	4
Gofynion o ran porwr	5
Rhestr wirio er mwyn paratoi ar gyfer asesiadau personol	5

Cyflwyniad

Lluniwyd y canllawiau hyn i helpu ysgolion i baratoi ar gyfer y gwaith o gyflwyno'r asesiadau personol a pharhau i'w cyflwyno.

Nodwch y gall y manylion technegol yn y ddogfen hon gael eu diweddarau o bryd i'w gilydd. Dylech fynd i wefan Hwb yn <https://hwb.llyw.cymru/asesiadau-personol> i gael y fersiwn ddiweddaraf o'r canllawiau hyn.

Mae dysgwyr yn cyrchu'r asesiadau yn yr ysgol gan ddefnyddio Hwb, llwyfan dysgu Llywodraeth Cymru, yn hwb.llyw.cymru/. Gall aelodau o staff drefnu a hwyluso'r asesiadau a lawrlwytho adroddiadau ar ddosbarthiadau a dysgwyr unigol drwy wefan ddynodedig y gellir ei chychu drwy fewngofnodi i Hwb. **Bydd angen i bob defnyddiwr – boed yn ddysgwr neu'n aelod o staff – ddefnyddio ei fanylion mewngofnodi ar gyfer Hwb.** I gael gwybod sut y gall defnyddwyr gael gafael ar enw defnyddiwr a chyfrinair, gweler y ddolen yn <https://hwb.gov.wales/canolfan-cymorth/gwasanaethau-hwb/dechrau-arni/>

Rydym yn argymhell eich bod yn darllen Safonau Digidol Addysg Llywodraeth Cymru yn <https://hwb.llyw.cymru/canolfan-cymorth/safonau-digidol-addysg>. Bydd yr adnodd hwn yn ddefnyddiol wrth reoli eich amgylchedd technoleg ddigidol i hwyluso dysgu.

Bydd cymorth TG mewnol ar gael i lawer o ysgolion, a byddant eisoes yn hyderus yn eu system a'i gallu i gynnal yr asesiadau. Os oes gennych gwestiynau ynghylch system TG eich ysgol, dylech gysylltu â hyrwyddwr digidol eich ysgol yn gyntaf.

Sut i wneud y mwyaf o gysylltiad eich ysgol â'r rhyngwrdd

Pan fydd dyfeisiau yn defnyddio rhwydwaith eich ysgol, gall y ffactorau canlynol effeithio ar gryfder a dibynadwyedd eich cysylltiad â'r rhyngwrdd.

Ffactor	Esboniad	Argymhelliad
Seilwaith y rhwydwaith Mae hyn yn cynnwys ceblau rhwydwaith, llwybryddion, switsys rhwydwaith a phwyntiau mynediad diwifr. Os na chaiff y rhain eu cynnal a'u cadw'n briodol, gall rhwydwaith eich ysgol fod yn araf a pheidio ag ymateb.	Mae'n bwysig edrych ar seilwaith eich rhwydwaith a'i gynnal. Dylech drefnu i edrych arno'n rheolaidd – bydd hyn yn darparu sail gadarn i'ch holl wasanaethau digidol ac yn eich helpu i gael y mwyaf o'ch cysylltiad â'r rhyngwrdd.	Cysylltwch â'ch awdurdod lleol am gyngor ar seilwaith presennol eich rhwydwaith, a gofynnwch sut y gall eich helpu. Ewch i'r afael ag unrhyw wendidau yn eich seilwaith – bydd hyn yn helpu i wella eich cysylltiad â'r rhyngwrdd.
Galwadau gwahanol ar eich	Ystyriwch rwydwaith eich ysgol (yn enwedig eich Wi-Fi)	Cadarnhewch pryd y bydd gwersi sy'n defnyddio cynnwys o'r fath yn cael eu cynnal. Bydd hyn yn helpu eich ysgol i

cysylltiad â'r rhyngwrwyd Gall cynnal gwersi ar yr un pryd sy'n defnyddio cynnwys ar y rhyngwrwyd i ryngweithio â dysgwyr (megis fideos i'w ffrydio) leihau cyflymder y cysylltiad ac effeithio ar brofiad defnyddwyr.	yn yr un ffordd rydych yn ystyried cyflenwad dŵr eich cartref – mae pob tap yn y tŷ yn rhannu'r un cyflenwad dŵr. Mae'r llif yn well os oes llai o dapiau'n rhedeg. Bydd rheoli traffig yn well, yn ogystal â'r data sy'n cael eu defnyddio ar draws rhwydwaith eich ysgol, yn eich helpu i wneud y mwyaf o'ch cysylltiad â'r rhyngwrwyd a gwella profiad eich defnyddwyr.	gynllunio gweithgareddau sy'n dibynnu ar gysylltiad â'r rhyngwrwyd. I gael rhagor o gyfarwyddiadau ar wneud y mwyaf o'ch cysylltiad â'r rhyngwrwyd, ewch i dudalen we Safonau Digidol Addysg yn https://hwb.llyw.cymru/canolfan-cymorth/safonau-digidol-addysg
Diweddariadau i feddalwedd a rhaglenni Mae'r rhain yn cynnwys diweddariadau i'r system weithredu, y feddalwedd ddiogelwch a rhaglenni eraill a all effeithio ar gyflymder y rhyngwrwyd yn eich ysgol.	Os bydd meddalwedd a rhaglenni'n cael eu diweddarau yn y cefndir tra bod asesiad yn cael ei gynnal, gall ymateb araf effeithio ar brofiad y dysgwr. Gyda rhai dyfeisiau, gallwch analluogi diweddariadau awtomatig neu bennu pryd yn union y gall y diweddariadau hyn ddigwydd.	Cysylltwch â'ch awdurdod lleol i gael cyngor ar sut i reoli diweddariadau i feddalwedd a rhaglenni yn llwyddiannus.

Cadarnhau cyflymder eich cysylltiad â'r rhyngwrwyd a'r lled band

Fel arfer, bydd angen i chi gael lled band o 2Mbps o leiaf os ydych yn asesu dosbarth o 30 o ddysgwyr, heb unrhyw alwadau sylweddol eraill ar y rhwydwaith ar y pryd.

Dechrau'r asesiad sy'n achosi'r llwyth mwyaf ar y rhwydwaith. Gan nad asesiad wedi'i amseru yw hwn, nid oes angen (er tegwch neu am resymau eraill) i'r holl ddysgwyr ddechrau'r asesiad ar union yr un pryd. Bydd caniatáu i'r dysgwyr ddechrau pan fyddant yn barod i fynd ati'n sicrhau bod yr asesiad yn dechrau ar adegau gwahanol. Bydd hynny'n gwasgaru'r llwyth ar eich rhwydwaith.

Cyn i chi drefnu asesiadau, rydym yn argymhell y dylid cadarnhau cyflymder eich cysylltiad â'r rhwydwyd a'r lled band drwy gysylltu â'ch darparwr rhwydwyd **neu** drwy fynd i www.speedtest.net/, clicio ar 'Go' ac yna recordio'r cyflymder lawrlwytho ac ymateb. Mae prawf ymateb yn mesur lled band neu amser ymateb cysylltiad eich ysgol – hynny yw, pa mor gyflym y cewch ymateb ar ôl i chi anfon cais. Mae ymateb cyflym yn golygu bod y cysylltiad yn fwy ymatebol¹.

Yr ysgolion sy'n trefnu ar gyfer dysgwyr eu hunain, gan ddefnyddio'r adnoddau trefnu ar wefan yr asesiad. Mae hynny'n galluogi ysgolion i wasgaru faint o ddysgwyr sy'n ymgymryd ag asesiad ar yr un diwrnod; yn ychwanegol, gallai'r asesiad gael ei ddechrau ar unrhyw adeg rhwng 8am a 5pm, er mwyn rheoli nifer y dysgwyr sy'n defnyddio'r rhwydwaith ar un adeg. Gall lleihau nifer yr asesiadau sy'n cael eu cynnal ar yr un pryd helpu i leihau'r straen ar gysylltiad eich ysgol â'r rhwydwyd a'r lled band.

Er enghraifft, os bydd y symptomau a nodir uchod yn digwydd, dylech leihau nifer y dysgwyr sy'n ymgymryd ag asesiadau ar yr un pryd a chynnal prawf cyflymder ac ymateb. Cofnodwch y cyflymderau lawrlwytho ac ymateb, ynghyd â nifer y defnyddwyr cydamserol, ac edrychwch i weld a yw'r symptomau'n parhau.

Mae llinell gymorth asesiadau ar gael er mwyn helpu gydag unrhyw broblemau sydd gan ysgolion a rhoi cyngor ar y camau nesaf. Gall ysgolion gysylltu â Desg Gymorth Asesiadau ar 029 2026 5099 neu cymorth@asesiadaupersonol.cymru

Dyfeisiau

Cynlluniwyd yr asesiadau i gydweddu â'r canlynol:

- cyfrifiaduron pen desg
- gliniaduron
- llechi

sydd â phorwr modern wedi'i osod (gweler 'Gofynion o ran porwr'). Cyn cynnal asesiad, dylech sicrhau bod eich dyfeisiau wedi'u gwefru'n llawn a'u diweddaru. Argymhellwn fod systemau gweithredu a rhaglenni yn cael eu diweddaru'n rheolaidd.

Nodwch na fydd Windows 7 yn cael ei gynnal gan Microsoft o fis Ionawr 2020 ymlaen. Caiff ysgolion eu hannog i uwchraddio i ddefnyddio trefniadau trwyddedu cenedlaethol Hwb ac i uwchraddio i Windows 10. Sicrhewch eich bod yn gweithio ar

¹ Noder: mae'r prawf cyflymder ar gael fel gwasanaeth am ddim ar wefan sy'n cynnwys hysbysebion. Am y rheswm hwn, mae rhwydweithiau ysgol weithiau yn ei rwystro. Os felly, cysylltwch â'ch darparwr rhwydwyd. Mae gwasanaethau tebyg eraill ar gael hefyd.

y cyd â'ch hyrwyddwr digidol a'ch partner cymorth TG/llywodraeth leol i wneud yn siŵr bod eich systemau wedi'u diweddaru.

Gofynion o ran porwr

Dylech ddefnyddio un o'r porwyr canlynol (dyma'r gofynion sylfaenol o ran porwyr²):

- Internet Explorer 11
- Mozilla Firefox 55
- Google Chrome 59
- Safari 10.

Nodwch: Nid yw Microsoft Edge yn borwr y gellir ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Er bod modd mynd i wefan yr asesiadau personol gan ddefnyddio Edge, ni fydd yn caniatáu i ddefnyddwyr lansio'r Asesiadau Darllen Personol, os bydd fersiwn porwr yr Edge yn is na Fersiwn 77. Cawsom ar ddeall bod disgwyl i'r Edge gael ei ddiweddaru i Fersiwn 77 yn Microsoft Windows ar ddechrau 2020.

Rhestr wirio er mwyn paratoi ar gyfer asesiadau personol

1. Darllenwch ganllawiau digidol Llywodraeth Cymru i ysgolion os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes yn <https://hwb.llyw.cymru/canolfan-cymorth/safonau-digidol-addysg>. Bydd y wefan hon yn rhoi arweiniad i'ch ysgol ar edrych ar seilwaith TG eich ysgol a'i gynnal, gwneud y mwyaf o'ch cysylltiad â'r rhyngwryd a rheoli diweddariadau i feddalwedd/rhaglenni.
2. Cyn i chi drefnu asesiadau, byddwch yn ymwybodol o wersi eraill sy'n defnyddio cynnwys ar y rhyngwryd i ryngweithio â dysgwyr ac ystyriwch sut y bydd hyn yn effeithio ar yr asesiadau.
3. Sicrhewch fod dyfeisiau wedi'u gwefru'n llawn, bod porwr modern wedi'i osod a bod diweddariadau i feddalwedd wedi'u cwblhau cyn cynnal unrhyw asesiadau sydd wedi'u trefnu.
4. Sicrhewch fod gennych borwr y gellir ei ddefnyddio ar gyfer pob dyfais i weld asesiadau ar-lein. **Nodwch** nad yw Microsoft Edge yn borwr sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd, ac ni fydd yn lansio'r Asesiadau Darllen Personol os bydd fersiwn y porwr yn is na Fersiwn 77.

I gael rhagor o wybodaeth am faterion sy'n ymwneud â seilwaith TG y rhyngwryd a'r ysgol, ewch i dudalen we Safonau Digidol Addysg yn <https://hwb.llyw.cymru/canolfan-cymorth/safonau-digidol-addysg>.

Cofiwch:

- **cynlluniwch ymlaen llaw** – sicrhewch eich bod yn cydweithio a'ch partner cymorth TG/llywodraeth leol i gadarnhau bod galluogrwyd y rhwydwaith a'r dyfeisiau yn ddigonol; pan fyddwch yn trefnu'r asesiad personol, dylech wybod faint o ddefnyddwyr fydd yn defnyddio'r system ar yr un pryd

² Nodwch mai JAWS ar y cyd ag Internet Explorer 11 yw'r porwr a argymhellir i'w ddefnyddio gyda rhaglen darllen sgrin.

- **paratowch** – sicrhewch fod athrawon eraill yn ymwybodol bod asesiadau'n cael eu cynnal, fel bod unrhyw alwadau eraill ar y system yn cael eu lleihau; gwiriwch fod gan bob dysgwr fanylion mewngofnodi i Hwb (a'u bod yn gweithio'n iawn); trowch yr holl ddyfeisiau yr ydych yn bwriadu eu defnyddio ymlaen, a sicrhewch eu bod wedi'u diweddarau a'u gwefru'n
- **ar y diwrnod** – cadwch olwg ar sut mae pethau'n mynd o ran yr asesiadau; cyfeiriwch at y canllawiau; cysylltwch â'r ddesg gymorth os bydd angen; cadwch gofnod o unrhyw faterion ac anfonwch adborth at eich partner cymorth TG/Llywodraeth leol os bydd angen.